



OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Cwyno am y corff cyhoeddus rydych yn gweithio iddo



Hawdd ei
Ddarllen



Cyflwyniad

3



Cwynion

4



Rhagor o wybodaeth

10



Cysylltwch â ni

11

Cyflwyniad



Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion am:

- wasanaethau cyhoeddus - mae'r rhain yn wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan sefydliad sy'n rhan o'r llywodraeth
- cynghorion lleol - mae'r rhain yn bobl sydd wedi'u dewis i redeg cyngor.
- cyrff cyhoeddus - mae'r rhain yn sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd. Maent yn cael arian gan y llywodraeth ond nid ydynt yn rhan ohoni.



Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthy ch sut i wneud cwyn sy'n ymwneud â'ch swydd os ydych yn gweithio i gorff cyhoeddus yng Nghymru.

Cwynion



Os ydych yn gweithio i gorff cyhoeddus, gallwch wneud cwyn i ni.



Dylech hefyd ddarllen y wybodaeth gyffredinol hon ynghylch sut i gwyno: www.ombwdsmon.cymru/sut-i-gwyno/

Beth allwn ni ei wneud

Gallwn ni ddelio â chwynion am sut y mae corff cyhoeddus yn:



- dod o hyd i staff newydd, a chyflogi staff newydd



- penderfynu pwy sy'n cael swydd.



Ni allwn ddelio ag unrhyw beth arall sy'n ymwneud â swyddi.

Beth na allwn ni ei wneud



Ni allwn ddelio â chwynion am sut y mae cyrff cyhoeddus yn delio â:


- staff sydd wedi torri rheolau



- cwynion



- dod â swyddi pobl i ben



- cyflogau, ceir cwmni neu fonysau eraill



- pensiynau



- tâl salwch



- tâl mamolaeth - dyma'r arian rydych yn ei gael pan fyddwch i ffwrdd o'r gwaith yn cael babi



- Sut maent yn trin eu staff



- bwllo yn y gwaith



- problemau iechyd sydd wedi cael eu hachosi gan waith



- anghytundebau ynghylch beth sy'n cael ei gynnwys mewn swydd



- anghydfodau diwydiannol - dyma pryd mae cwmni a'u staff yn anghytuno ynghylch rhywbeth.



Efallai y gall Tribiwnlys Cyflogaeth ddelio â'ch cwyn yn lle.

Pethau i'w hystyried



Er na allwn ddelio â'r holl gwynion am swyddi â chyrrff cyhoeddus, gallwn ddelio â chwynion am bethau eraill.



Er enghraifft, os ydych yn cael gwasanaeth gan gorff cyhoeddus, gallwch gwyno amdano hyd yn oed os ydych yn gweithio yno.



Gallwch gwyno am wasanaethau'r cyngor hyd yn oed os ydych yn gweithio i'r cyngor.



Gallwn dderbyn cwynion gan **chwythwyr chwiban**. Chwythwr chwiban yw rhywun sy'n dweud rhywbeth pan fydd y sefydliad maent yn gweithio iddo yn gwneud rhai pethau yn anghywir.



Mae mwy o wybodaeth am beth allwn ni ei wneud yma: www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/cod-ymddygiad-gwybodaeth-gyffredinol/



Gallwn hefyd benderfynu ein hunain i edrych i mewn i rywbeth mae corff cyhoeddus yn ei wneud.



Mae mwy o wybodaeth am beth allwn ni ei wneud yma: <https://www.ombwdsmon.cymru/ymchwiliadau-ar-ei-liwt-ei-hun/>



Rydym yn gweithio ar ein pennau ein hunain ac nid ydym yn dewis ochrau.




Ni allwn orfodi cyrff cyhoeddus i wneud rhywbeth, ond maent bron bob amser yn gwneud yr hyn rydym yn ei awgrymu.



Gallwch ddod o hyd i rai problemau rydym wedi edrych arnynt ar ein gwefan:
www.ombudsmon.cymru/case-books/

Rhagor o Wybodaeth

Gall problemau â'ch gwaith fod yn anodd, a dylech gael cyngor cyfreithiol.



- Mae **ACAS** yn rhoi gwybodaeth a chyngor rhad ac am ddim ar unrhyw beth sy'n ymwneud â swyddi â'r gyfraith: www.acas.org.uk/
- Os ydych yn aelod o Undeb Llafur dylech gysylltu â nhw oherwydd efallai y byddant yn gallu eich helpu.
- Gall **Cyngor am Bopeth** roi cyngor rhad ac am ddim
Gallwch ddod o hyd i'r gangen agosaf yn y cyfeirlyfr ffôn.
Mae adran ar eu gwefan sy'n rhoi cyngor am swyddi:
www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/
- Gall llawer o gyfreithwyr roi cyngor i chi. Fel arfer, mae'n rhaid talu am hyn.


Cyfreithiwr yw rhywun sy'n gallu eich helpu â'ch hawliau.

Cysylltwch â ni



Os ydych yn ansicr a allwn helpu,
cysylltwch â ni:

Ffôn:
0300 790 0203



Ebost:
holwch@ombwdsmon.cymru



Gwefan:
www.ombwdsmon.cymru/cysylltu-a-ni/



Post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ**